




GWIREDDU'R GYMRU ANNIBYNNOL

CYLLID — PAPUR TRAFOD

GWIREDDU'R GYMRU ANNIBYNNOL

CYLLID — PAPUR TRAFOD





CYHOEDDWDYD GAN MELIN DRAFOD © 2023
melindrafod.cymru

CEDWIR POB HAWL.

DYLUNIO: RHYS LLWYD

ARGRAFFWYD YNG NGHYMRU
GAN GWASG SEROL, CASTELL NEDD
SEROLPRINT.CYMRU

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB
3. EGWYDDORION SYLFAENOL:
ADEILADU CYMDEITHAS NEWYDD
4. Y SEFYLLFA GYLLIDOL
5. Y FFORDD YMLAEN
6. ATEB CLASUROL
7. CYTUNDEB CYMDEITHASOL NEWYDD
– GWELEDIGAETH ÔL-ANNIBYNIAETH
8. CASGLIADAU

1. CYFLWYNIAD

1.1. Cred Melin Drafod fod annibyniaeth yn gwestiwn sy'n mynd i'n hwynebu fel cenedl yn ystod y blynyddoedd i ddod. Ni yw'r unig felin drafod sy'n edrych ar y llwybr at annibyniaeth i Gymru, a'r cwestiynau polisi sy'n codi yn sgîl yr annibyniaeth honno.

1.2. Sefydlwyd ein melin drafod yn 2021 er mwyn cefnogi, hwyluso a bod yn gyfaill beirniadol i'r mudiad annibyniaeth ar lawr gwlad. Nid yw'r Felin Drafod yn perthyn i'r un blaid wleidyddol. Rydym yn gweithredu'n drawsbleidiol ac yn drawsfudiadol ac yn canolbwyntio ar roi sylw manwl i'r cwestiynau sy'n codi yn sgîl y gefnogaeth gynyddol i annibyniaeth.

1.3. Sut i hwyluso annibyniaeth flaengar, nid annibyniaeth er lles annibyniaeth yn unig, yw ein blaenoriaeth. Rydym yn trin a thrafod datrysiadau i argyfyngau mawr ein hoes – o newid hinsawdd a lleiafrifoli ieithoedd i warth tloidi a hiliaeth – yma ac o amgylch y byd. Mae gwir angen paratoi'n drylwyr ar gyfer Cymru annibynnol: bydd y cwestiwn yn wynebu Cymru'n hwyr neu'n hwyrach.

1.4. Diben y papur hwn yw ychwanegu at y corpws polisi sy'n trin a thrafod y llwybr tuag at sefydlu Cymru fel gwladwriaeth annibynnol, lwyddiannus a blaengar. Mae'n ddogfen ymgynghorol a chroesewir ac anogir beirniadaeth adeiladol ar ei chynnwys.

2. CRYNODEB

2.1. Dywedir yn aml mai sefyllfa gyllidol Cymru yw un o'r rhwystrau mwyaf wrth i fudiadau geisio argyhoeddi'r cyhoedd am yr achos dros annibyniaeth i Gymru. Fodd bynnag, ymddengys bod consensws academaidd nad yw'r ystadegau a gyfeirir atynt yn aml gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol¹ yn adlewyrchu'r hyn fyddai'n wynebu Cymru fel gwlad annibynnol ar ei diwrnod cyntaf.

2.2. Mae adroddiad Doyle² yn cyflwyno dadl gredadwy y byddai Cymru'n wynebu diffyg llawer llai, o 3.1% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP), ar ei

diwrnod cyntaf fel gwlad annibynnol: ffigur fyddai'n gwneud Cymru yr un mor alluog â'r rhan helaeth o wledydd Ewrop i fod yn annibynnol.

2.3. Byddai'n synhwyrol ac yn rhagofalus i ragdybio bod rhywfaint o ansicrwydd am gywirdeb ffigur Doyle o 3.1% o GDP gan ei fod yn ddibynnol ar y sefyllfa a fyddai'n deillio o negodi rhwng Cymru annibynnol a gweddill y Deyrnas Gyfunol (rUK). Mae ei amcangyfrif o'r refeniw uwch disgwylidig o dreth gorfforaethol ac arbedion mewn gwasanaethau tramor yn fwy sicr na'i ragdybiaethau mewn perthynas â phensiynau.

2.4. Er bod dadl gref bod sefyllfa gyllidol Cymru yn ddigon iach i gynnal gwladwriaeth annibynnol fel y mae, cynigiwn greu 'cytundeb cymdeithasol newydd' rhwng y wladwriaeth a phobl Cymru a fyddai'n cyfnerthu sefyllfa gyllidol Cymru o ryw 6-7% o GDP dros gyfnod o flynyddoedd drwy newidiadau polisi, gan gynnwys y canlynol:

- cynyddu lefel refeniw-i-GDP i gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd (o 39.6% i 46.0%), gan gynnwys drwy gyflenwad cyffuriau cyfreithlon a reoleiddir a trethi ar rentwriaeth (*rentierism*);
- cyflwyno cyfres o fesurau, megis cymell pobl ifanc i aros a llacio rheolau mewnffudo, i gynyddu canran y boblogaeth sydd o oedran gweithio, tra ar yr un pryd yn trawsnewid ein perthynas â gwaith;
- lleihau gwariant ar amddiffyn i'r un lefel ag Iwerddon i 0.5% o GDP, gan gynnwys peidio â chyllido arfau nac ynni niwclear;
- newidiadau gweinyddol a gwariant eraill gan gynnwys creu un gwasanaeth argyfwng, llai o gynghorau sir a lleihau'n sylweddol canran y boblogaeth a garcherir.

2.5. O dderbyn safbwynt Doyle fel man cychwyn, byddai'r mesurau cyfnerthu cyllidol a gynigir gennym yn arwain at hwb i'r coffrau o oddeutu £5-6 biliwn y flwyddyn, a fyddai'n arwain at warged ariannol o oddeutu £2-3 biliwn y flwyddyn, neu 3-4% GDP. Yn y senario hyn, credwn y dylid defnyddio'r gwarged i fuddsoddi mewn mentrau megis:

- taliad cymorth plentyn sylweddol er mwyn dileu tloidi plant, fel cam tuag at ddileu tloidi yn gyfan gwbl;
- gofal plant i bawb yn rhad ac am ddim;

1 <https://www.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicsectorfinance/datasets/countryandregionalpublicsectorfinancesexpendituretables>

2 https://www.plaid.cymru/fiscal_gap_indywales

- dad-garboneiddio'r systemau trafndiaeth, ynni a thai.

2.6. Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad bod tystiolaeth gref y bydd y Gymru annibynnol yn wladwriaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol. Awgryma nifer o egwyddorion sylfaenol a fyddai'n llywio penderfyniadau'r genedl wrth fanteisio ar rymoedd a chyfleoedd newydd annibyniaeth, gan drawsnewid y wlad ar sail egwyddorion sosialaidd. Mae gennym y gallu a'r adnoddau i adeiladu cymdeithas newydd sy'n dileu tldi, yn byw o fewn terfynau amgylcheddol un blaned ac yn heddychlon wrth ymwneud â'r byd.

3. EGWYDDORION SYLFAENOL: ADEILADU CYMDEITHAS NEWYDD

3.1. Dywedir yn aml mai'r diffyg cyllidebol yw'r prif her sy'n wynebu'r rheini sy'n dadlau dros annibyniaeth i Gymru. Nodir hyn fel un o'r prif gwestiynau i'r rhai sy'n bleidiol i annibyniaeth yn adroddiad interim Comisiwn Cyfansoddiadol Llywodraeth Cymru³, sy'n datgan: "yn achos annibyniaeth, mae angen gofyn sut byddai Cymru annibynnol yn gwarantu sefydlogrwydd ariannol". Fodd bynnag, ni allwn ystyried cwestiynau cyllidol mewn gwagle: mae peidio â mynegi ein hegwyddorion yn gyfystyr â chefnogi'r *status quo* neo-ryddfrydol creulon a methodig.

3.2. Dylid nodi yn ogystal bod anfanteision a chyfleoedd coll sylweddol i Gymru o aros o fewn y Deyrnas Gyfunol. Dadleua Poole yn ei adroddiad (2020): "*it bears consideration that the economic and fiscal risks of staying a part of the UK are perhaps*

greater than ever".⁴ Mae'r anfanteision economaidd, ariannol a chymdeithasol a wynebir gan Gymru o fewn yr undeb bresennol yn cynnwys:

- bod o fewn un o'r gwladwriaethau lleiaf cyfartal yn yr OECD⁵ gyda bron i 1 ymhob 4 o blant yn byw mewn tldi⁶;
- derbyn buddsoddiad llawer iawn is na'r hyn sy'n ddyledus fesul pen yn ein hisadeiledd economaidd, gan gynnwys ymchwil⁷ a thrafnidiaeth⁸;
- polisi cyfiawnder sydd yn golygu bod Cymru â'r canran uchaf yng ngorllewin Ewrop o'i phoblogaeth yn y carchar⁹;
- dioddef o ganlyniad i enw gwael iawn y Deyrnas Gyfunol ar y llwyfan ryngwladol, gyda'r Cenhedloedd Unedig yn beirniadu ei thriniaeth o ddiodefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth¹⁰, ynghyd â ffoaduriaid a mewnfudwyr¹¹.

3.3. Ymhellach, dylid cydnabod bod y ffordd rydym yn mesur llwyddiant neu gynnydd cymdeithasol ar hyn o bryd yn anaddas, yn enwedig GDP, sy'n hybu cysyniadau megis twf a chystadleuaeth, yn groes i anghenion y blaned a chydlyniant cymdeithasol.

3.4. Mae Melin Drafod am i ddewisiadau cyllidol gael eu gwneud gan gynhyso gwerthoedd sosialaidd a blaengar, yn unol â'r amryw draddodiadau chwith-radical sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein cymunedau ledled y wlad. Mae'r egwyddorion blaengar hyn yn greiddiol i'n gweledigaeth, ac yn cynnwys perchnogaeth gyffredin, rheolaeth gan weithwyr, cydweithredu a thegwch i bawb, ynghyd ag ail-ddychmygu ein strwythurau penderfynu.

3.5. Wrth ddarllen y papur hwn a gwranddo ar y ddadl ehangach, mae angen i ni gydnabod ein bod yn byw mewn cyd-destun hyper-gyfalafol Prydain gyfoes. Mae angen i ni ddechrau newid y drafodaeth gul honno a dechrau agor llygaid pobl i wirioneddau cymdeithas lle mae cymaint o adnoddau wedi'u

3 <https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-interim>

4 Tud. 10 https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0004/1767424/Wales_Fiscal_Future_FINAL.pdf

5 <https://stats.oecd.org/Index.aspx?DataSetCode=IDD#>

6 <https://oxfamapps.org/cymru/cymraeg/tldi-yng-nghymru-ar-cynllun-gweithredu-trawsbleidiol/>

7 <https://www.llyw.cymru/maen-rhaid-i-gymru-dderbyn-cyfran-deg-or-cyllid-ymchwil-datblygu-i-gyflawni-ei-photensial-gwein-idog>

8 <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/wales-missing-out-uks-biggest-22288606>

9 <https://www.theguardian.com/uk-news/2019/jan/16/wales-has-highest-incarceration-rate-in-western-europe-prison-population-england>

10 <https://news.un.org/en/story/2022/12/1131867>

11 <https://www.ohchr.org/en/press-releases/2022/06/un-expert-urges-uk-halt-transfer-asylum-seekers-rwanda>

preifateiddio yn lle blaenoriaethu gwerth yr economi leol, gylchol a sylfaenol i alluogi cymunedau i lwyddo.

3.6. Mae annibyniaeth yn cynnig cyfle i ni dorri'r cylch cyfalafol o argyfwng a chrynodiad. Mae'r systemau grym echdynnol sydd ar waith yn y Deyrnas Gyfunol gyfoes yn hollol anaddas ar gyfer, ac yn anghydnaws â'r Gymru newydd yr ydym yn dymuno adeiladu. Mewn llawer o achosion, mae'r systemau grym hyn yn achosi problemau eithriadol o ddwys yn ein cymdeithas. Mae angen newid ein cymdeithas wleidyddol i un wrth-gyfalafol, oherwydd, drwy hynny, bydd y Gymru annibynnol yn torri i ffwrdd o ffaeledau'r Undeb. Er mwyn adeiladu Cymru newydd, mae angen gweledigaeth newydd; gobeithiwn y bydd yr egwyddorion a nodir isod yn cychwyn trafodaeth ar yr hyn sydd ei angen arnom er mwyn creu cymdeithas wahanol.

3.7. Cynigiwn felly gymhwysor egwyddorion canlynol wrth wynebu'r dyfodol fel gwlad annibynnol:

- Cenedl Gyfartal - darparu gwasanaethau sylfaenol yn rhad ac am ddim, gan gynnwys cartref, a dosbarthu incwm a chyfoeth yn llawer mwy cyfartal;
- Cenedl Heddychlon - creu cymdeithas wedi'i hadeiladu ar gydweithredu yn lle gwrthdaro;
- Cenedl Un Blaned - gwrthod y syniad confensiynol cyfalafol o dwf economaidd, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd;
- Cenedl Gynhwysol a Chyfranogol - creu cymdeithas wrth-hiliol, wrth-rywiaethol, wrth-ragfarn, lle mae cymaint o benderfyniadau â phosibl yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan bobl, gweithwyr a chymunedau lleol;
- Cenedl Gymraeg Fodlon - gwella lles a hapusrwydd pobl ac adfer y Gymraeg fel priod iaith y wlad;
- Cenedl Groesawgar - llacio ffiniau mewn fudo i'r graddau mwyaf posibl, gan groesawu cyfraniad pobloedd o amgylch y byd i'n gwlad.

3.8. Man cychwyn yn unig yw'r egwyddorion hyn. Wrth gynnal trafodaeth ar sefyllfa gyllidol Cymru mae angen cwestiynu beth yw'r economi a phwy mae'n ei gwasanaethu.

3.9. Yn yr adrannau nes ymlaen yn y papur hwn, rhoddir cryn sylw i'r ystadegau a fesurir o fewn cyfyngiadau a fframwaith economi Cymru fel y mae o fewn y Deyrnas Gyfunol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod angen ymatebion strwythurol ehangach. Y math o gymdeithas rydym am ei chreu ddylai arwain ein penderfyniadau cyllidol ac economaidd, nid y ffordd arall rownd.

4. Y SEFYLLFA GYLLIDOL

4.1. Ni ellir mesur dichonolrwydd gwladwriaethau ar y sail a oes cyllideb gytbwys ganddynt ai peidio: prin y gellid ystyried yr un wladwriaeth yn Ewrop yn gynladwy os felly. O aelodau'r Undeb Ewropeaidd, yn 2021, bu 15 yn cynnal diffyg uwch na 3% o GDP, a hynny er gwaethaf rheol yr undeb arian cyfred a ddechreuwyd ei sefydlu ym 1992 drwy Gytundeb Maastricht, sef y dylid ceisio cynnal diffyg o lai na 3% o GDP a dyled llai na 60% o GDP¹². Mae Cytundeb Twf a Sefydlogrwydd yr Undeb Ewropeaidd yn rheolau neo-ryddfrydol a ystyrir yn or-geidwadol gan lawer, ac yn destun cynigion i'w diwygio ar hyn o bryd¹³.

4.2. Dadleuir gan rai y gellid sefydlu arian cyfred a banc canolog ar wahân i Gymru, gyda rheolau cyfalaf priodol, a fyddai'n golygu bod modd rheoli diffyg cyllidebol presennol Cymru yn gynaliadwy. Drwy sefydlu arian cyfred Cymru sy'n annibynnol ar y bunt, dadleuir y byddai llawer mwy o rymoedd a hyblygrwydd cyllidol ar gael i'r wladwriaeth newydd. Felly, cynigir gan y bobl hyn y gellid cynnal y sefyllfa gyllidol bresennol drwy argraffu arian: polisi a welwyd ar waith mewn nifer o wledydd y Gorllewin dros y blynyddoedd diweddar.

4.3. Ymhellach, nodir gan rai bod diffygion cyllidol dim ond yn berthnasol i'r graddau y maent yn adlewyrchu gallu gwladwriaethau i dalu'r taliadau benthyg. Gan fod Llywodraeth Prydain wedi ymrwmo i dalu'n llawn ddyledion hanesyddol y Deyrnas Unedig pe bai'r Alban yn ennill annibyniaeth¹⁴, dadleuir na fyddai diffygion yn destun pryder i'r Gymru annibynnol newydd.

4.4. Fodd bynnag, ceir safbwynt amgen, yn enwedig gan y rheini sy'n cefnogi aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd, bod angen i'r marchnadoedd ariannol

12 https://economy-finance.ec.europa.eu/economic-and-fiscal-governance/stability-and-growth-pact/history-stability-and-growth-pact_en

13 https://economy-finance.ec.europa.eu/system/files/2022-11/com_2022_583_1_en.pdf

14 <https://www.gov.uk/government/publications/uk-debt-and-the-scotland-independence-referendum>

a gwladwriaethau eraill fod â hyder yng ngallu'r wladwriaeth annibynnol newydd i dalu ei dyledion. Mae'r rheini yn sicr yn ddewisiadau sydd yn wynebu aelodau ardal yr Ewro ar hyn o bryd, fel y gwelwyd yng Ngwlad Groeg yn ystod y 2010au yn bennaf.

4.5. Mae angen trafodaeth bellach ar y materion hyn, ond dylid cydnabod bod dadl ddeallusol ddilys na ddylid gorganolbwyntio ar ddiffyg cyllidebol wrth gloriannu'r gwahanol safbwyntiau, tra'n cydnabod ar yr un pryd bod dadl fel arall bod angen profi cynaliadwyedd ariannol Cymru annibynnol i farchnadoedd a/neu sefydliadau rhyngwladol eraill.

4.6. Ymhellach, ac yn fwy diweddar, mae trafodaeth iach wedi datblygu ar sail dau fath o ddehongliad academaidd - y rheini a gyhoeddwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru ac un arall gan yr Athro Doyle o Brifysgol Dinas Dulyn¹⁵.

DADANSODDIAD POOLE

4.7. Ceir dadansoddiad manwl o sefyllfa ariannol Cymru gan Poole, Ifan a Siôn yn eu hadroddiadau *Government Expenditure and Revenue in Wales 2019*¹⁶ a *Wales' Fiscal Future: A path to sustainability*?¹⁷. Mae'r adroddiadau yn werthfawr o ran dadansoddi ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghyd â newidiadau dros amser a'r rhesymau am y diffyg.

4.8. Yn yr adroddiadau, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, ceir nifer o bwyntiau nodadwy, gan gynnwys:

- bod lefelau refeniw is, o gymharu â gweddill y Deyrnas Gyfunol, sydd bennaf gyfrifol am ddiffyg cyllidol perthynol Cymru, yn benodol refeniw is o dreth incwm ac yswiriant gwladol;
- bod y lefel o dreth fel canran o GDP yng Nghymru dipyn yn is na chyfartaledd gwledydd ardal yr Ewro, tra bod lefel y gwariant y pen yn debyg i gyfartaledd gwledydd yr OECD;
- bod Cymru (ynghyd â 7 gwlad arall yn yr OECD) yn llawer mwy dibynnol ar dreth ar ddefnydd, er enghraifft Treth ar Werth (VAT), tra bod y rhan fwyaf o wledydd yr OECD yn bennaf ddibynnol ar drethi incwm neu gyfraniadau lles;

- bod buddsoddiad cyfalaf gan y Deyrnas Gyfunol yng Nghymru, mewn trafniadaeth ac ymchwil a gwyddoniaeth, llawer yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gweddill y wladwriaeth;
- bu Cymru yn fuddiolwr net sylweddol, o ran gwariant, o'i haelodaeth flaenorol o'r Undeb Ewropeaidd (yn wahanol i rannau eraill y Deyrnas Unedig);
- pe bai poblogaeth Cymru yn cael ei dosbarthu ar draws grwpiau oedran unigol yn yr un ffordd â chyfartaledd y Deyrnas Gyfunol, byddai cyfanswm y gwariant a ragwelir yn 2019 ar gyfer 2022-23 dros £1 biliwn yn is, a byddai refeniw treth bron i £500 miliwn yn uwch.

DADANSODDIAD DOYLE

4.9. Yn gyntaf, dadleu'r Athro'r Doyle nad pwrpas ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw amcangyfrif faint fyddai diffyg cyllideb Cymru annibynnol ar ei diwrnod cyntaf a bod y corff ei hun yn datgan bod yr ystadegau yn rhai 'arbrofol'.

4.10. Yn ail, dyweda Doyle fod £4,626 miliwn o'r gwariant a ddynodir i Gymru yn 'anadnabyddadwy' (*non-identifiable*) a llawer ohono yn goramcangyfrif faint fyddai Cymru annibynnol yn ei wario, gan nodi amddiffyn ac arfau niwclear fel enghreifftiau amlwg. Yn ogystal, nodar adroddiad fod £1,240 miliwn o wariant canolog y Deyrnas Gyfunol a ddigwyddodd tramor, gan gynnwys gwasanaethau diplomyddol a chymorth tramor, yn cael ei briodoli i Gymru.

4.11. Mae Doyle yn adnabod sawl maes gwariant a fyddai'n destun negodi rhwng gweddill y Deyrnas Gyfunol a'r Gymru annibynnol newydd, ynghyd â refeniw newydd, y dadleua byddai'n lleihau diffyg cyllidol Cymru annibynnol:

- Pensiynau - dadleuir yn syml y dylid trin taliadau treth a wnaed yn ystod oes yr undeb rhwng Cymru a gweddill gwledydd yr undeb fel taliadau yswiriant, hynny ydy, y dylai gweddill y Deyrnas Gyfunol barhau i dalu am yr hawliau pensiynau a ennillwyd yn ystod oes yr undeb wedi i Gymru ddod yn annibynnol. Cyfeirir at y cytundebau a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol gyda Gweriniaeth Iwerddon a'r Undeb

15 https://www.plaid.cymru/fiscal_gap_indywales

16 Government Expenditure and Revenue Wales (Ifan, Siôn and Poole, 2019) https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/1540498/Government-Expenditure-and-Revenue-Wales-2019.pdf

17 https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/1767424/Wales_Fiscal_Future_FINAL.pdf

Ewropeaidd fel cynseiliau pwysig yn hyn o beth. Dywed Doyle y byddai negodi cytundeb tebyg yn lleihau diffyg cyllidol honedig Cymru o £5,906 miliwn.

- Dyled - gan gyfeirio at gynsail sefydlu Gwladwriaeth Rydd Iwerddon ym 1925 a datganiad Trysorlys Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a wnaed yn 2014¹⁸ yng nhyd-destun refferendwm yr Alban, dadleuir na fyddai angen i wladwriaeth Cymru annibynnol dalu'r un geiniog o ddyled gweddill y Deyrnas Gyfunol. Byddai dod i'r fath gytundeb yn lleihau'r diffyg o £2,672 miliwn.
- Amddiffyn - priodolir £1,902 miliwn y flwyddyn ar amddiffyn i Gymru gan ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys arfau niwclear, ond dadleua Doyle y byddai Cymru annibynnol yn arbed £922 miliwn y flwyddyn drwy wario cyfartaledd gwledydd yr Undeb Ewropeaidd, sef 1.3% o GDP.
- Gwariant tramor - dadleuir mai dewisiadau gwleidyddol, nid costau eitifeddol neu ddisymud, sydd ynghlwm â'r £1,240 miliwn y flwyddyn a briodolir i wariant ar wasanaethau fel llysgenhadon a chymorth rhyngwladol. Awgrymir gan y papur academaidd na fyddai gwladwriaeth maint Cymru angen yr un lefel o ddarpariaeth lysgenhadol, gan arbed £620 miliwn y flwyddyn.
- Eraill - mae Doyle yn ystyried bod tanamcangyfrif o £735 miliwn y flwyddyn drwy drosrannu refeniw treth gorfforaethol yn unol â Gwarged Gweithredol Gros yn hytrach na fesul gweithiwr o ystyried y duedd anghymesur i gwmnïau'r Deyrnas Gyfunol leoli yn Llundain. Dywed yn ogystal y byddai £580 miliwn y flwyddyn drwy arbedion ac incwm treth uwch yn ystod y cyfnod trosglwyddo i wlad annibynnol.

4.12. Am y rhesymau uchod, daw Doyle i'r casgliad mai £2.6 biliwn (3.1% o GDP) fyddai diffyg Cymru annibynnol ar ei diwrnod cyntaf, nid yr £13.1 biliwn (18% o GDP) a nodir yn ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

BEIRNIADAETH

4.13. Gellid dadlau bod gwaith Poole a Doyle yn ddadansoddiadau sydd ynghlwm ag uniongredd economaidd. Drwy gydnabod asesiadau o'r math, gallwn gynllunio ar gyfer pontio o'r sefyllfa economaidd gyfredol i'n gweledigaeth ehangach ar gyfer y wlad wedi annibyniaeth.

4.14. Mae'n bwysig nodi nad pwrpas adroddiad 2019 Poole¹⁹ yw adlewyrchu'r sefyllfa gyllidol a fyddai'n wynebu Cymru ar ei diwrnod cyntaf fel gwlad annibynnol. Fodd bynnag, dyna sut mae wedi'i ddehongli gan nifer, yn yr un ffordd y ceir camddechongliad cyffredin o ystadegau arbrolfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

4.15. Cam ymlaen mewn un ystyr felly yw adroddiad Doyle, sef ei fod yn gwneud ymdrech i ystyried sefyllfa Cymru annibynnol a chymhwysu'r ffigurau sydd gennym. Fodd bynnag, manylir isod yn adran 6 ar ambell i faes lle nad ydym yn cytuno gyda'i ragdybiaethau polisi.

CRYNHOI'R GWAHANOL SAFBWYNTIAU

4.16. Yr hyn sydd gan y safbwyntiau a adnabyddir uchod yn gyffredin yw'r farn nad yw ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adlewyrchu'r sefyllfa a fyddai'n wynebu Cymru annibynnol ar ei diwrnod cyntaf.

4.17. Fodd bynnag, uchod ceir tri safbwynt gwahanol iawn ar sefyllfa gyllidol Cymru annibynnol, sy'n tybio bod Cymru:

- yn gallu sefydlu arian cyfred, banc canolog a rheolau cyfalaf priodol ei hun, ac felly nid oes angen rhoi llawer o sylw i sefyllfa gyllidol Cymru annibynnol;
- yn cynnal diffyg cyllidol o tua 3.1% o GDP, sefyllfa debyg i wledydd datblygiedig eraill ac felly mewn sefyllfa gyllidol iach;
- yn cynnal diffyg cyllidol rhwng 3.1% a 18% o GDP, sy'n anghynaliadwy, o leiaf yn y tymor canol/hir.

4.18. O ystyried y dadansoddiadau posibl uchod, a thra'n nodi'r ddadl na ddylid rhoi llawer o bwys ar ddiffyg cyllidebol, dylid cydnabod bod rhai modelau ar gyfer annibyniaeth i Gymru, megis ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, yn golygu bod rhaid cwrdd ag

18 <https://www.gov.uk/government/publications/uk-debt-and-the-scotland-independence-referendum>

19 Mae adroddiadau eraill Poole yn gwneud rhagor o ymdrech i egluro hyn, ond gellid eu hystyried fel ceidwadol o'u cymharu â Doyle o hyd.

amcanion cyllidebol penodol. Dadleuir felly bod angen diffyg sydd naill ai'n 3% o GDP neu ar lwybr credadwy at gyrraedd y lefel honno yn y tymor canol.

4.19. Amcangyfrifir mai £13.5 biliwn, neu 18% o GDP, oedd y gwahaniaeth rhwng gwariant a refeniw yng Nghymru yn 2018-19²⁰ a hynny o fewn y Deyrnas Gyfunol - sef lleihad o'r diffyg 30% o GDP yn 2009-10. Mae hynny'n cymharu â 1.8%²¹ o GDP ar lefel Brydeinig yn yr un flwyddyn.

4.20. Dileu'r diffyg cyllidebol strwythurol yw sut y gellid disgrifio'r broses o gyrraedd diffyg o 3% dros gyfnod o amser. Cydnabyddir nad yw'n llesol targedu'r un lefel o ddiffyg ar bob adeg, ond mai dyna fyddai'r diffyg cyfartalog dros gyfnod y cylch economaidd.

4.21. Mae adroddiad Doyle yn awgrymu y byddai Cymru annibynnol mewn sefyllfa gyllidol agos iawn at hynny heb newidiadau polisi dadleuol. Ar y llaw arall, mae Poole yn fwy amheus, gan ddadlau y "byddai annibyniaeth yn gofyn am newidiadau radical i bolisi cyllidol ac economaidd"²². Ymhelaethwn ar y safbwyntiau hyn islaw.

5. Y FFORDD YMLAEN

DAU ATEB

5.1. Wrth edrych ar y ffordd ymlaen, mae angen gwahaniaethu rhwng dau wahanol ateb i'r cwestiwn am sefyllfa gyllidol y Gymru annibynnol. Ar lefel gwbl ymarferol, bydd nifer o bobl ar lawr gwlad yn gofyn a allwn ni fforddio cynnal cenedl annibynnol. Ar yr un pryd, ond ar wahân, mae angen egluro'r weledigaeth o'r math o gymdeithas newydd rydym yn dymuno ei chreu gan ddefnyddio pwerau cenedl annibynnol.

5.2. Wrth reswm, mae atebion economeg glasurrol yn gweithredu o fewn y system economaidd rydym yn wynebu ar hyn o bryd, cyn annibyniaeth. Mae tueddiad felly i'r rheini ganolbwyntio ar gynnal system gyfalafol neo-ryddfrydol ar ffurf systemau gwladwriaethol y Gorllewin. Fodd bynnag, wrth edrych i'n dyfodol, mae angen dechrau torri i ffwrdd o'r systemau methodig hyn sy'n milwriaethu yn erbyn buddiannau pobl a chymunedau ein gwlad. Mae ein gweledigaeth ni'n canolbwyntio ar ddatganoli grym i bobl a chymunedau, ac mae angen i'n heconomi adlewyrchu hynny.

5.3. Fodd bynnag, mae cysylltiad rhwng y ddau ateb. O fewn cyfyngiadau'r system bresennol, cynigiwn osod seiliau ar gyfer ein gweledigaeth ehangach ôl-annibyniaeth. Bydd y newidiadau y cynigiwn fel camau syth bin yn adran 7 isod yn bont i'r 'Cytundeb Cymdeithasol Newydd' ehangach rhwng y wladwriaeth annibynnol newydd a'i dinasyddion a fydd yn seiliedig ar berchnogaeth gyffredin a chydraddoldeb canlyniad.

6. ATEB CLASUROL

6.1. Mae adroddiad Doyle wedi darparu ateb sy'n haeddu llawer iawn o sylw, a chredwn fod dadl ddilys i'w gwneud bod pob rhagdybiaeth yn ei adroddiad yn gywir.

6.2. Fodd bynnag, credwn fod mwy o ansicrwydd yn perthyn i'r dadleuon y byddai gweddill y Deyrnas Gyfunol yn cytuno i ni dalu 'buddion' pensiynau a enillwyd yn ystod oes yr Undeb. Ymhellach, ac er ei bod yn gwbl glir na fyddai gan Gymru unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i dalu cyfran o ddyled rUK, gellid rhagweld rhai sefyllfaoedd pan fyddai gwladwriaeth rydd Cymru yn dewis gwneud cyfraniad gwirfoddol tuag at ddyledion hanesyddol rUK. Dylid nodi yn ogystal y cyfle a gynigir gan annibyniaeth i symud i system o Wasanaethau Sylfaenol Cyffredin a/neu gyflogau am waith

20 <https://blogs.cardiff.ac.uk/thinking-wales/the-fiscal-gap-and-the-welsh-economy/> https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/1540498/Government-Expenditure-and-Revenue-Wales-2019.pdf

21 <https://www.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicspending/bulletins/ukgovernmentdebtanddeficitforeurostatmaast/september2019>

<https://obr.uk/overview-of-the-november-2022-economic-and-fiscal-outlook/>

<https://obr.uk/public-finances-databank-2022-23/>

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1126020/Public_Sector_Finance_bulletin_November_2022_HMT.pdf

22 https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0011/2681543/plaid_conference_october2022_FIN.pdf

domestig a gofal teuluol. Gallai hyn roi gwedd hollol wahanol ar y ddadl ynghylch cyfrifoldebau am dalu pensiynau.

6.3. Wrth gymhwysor egwyddorion a nodir yn adran 3 uchod, mae Melin Drafod felly yn anghytuno gydag un awgrym gan Doyle: credwn y dylai'r gwariant ar amddiffyn fod yn is na'r 1.3% o GDP a awgrymir ganddo a bod ar yr un lefel ag Iwerddon yn lle, sef 0.5%.

6.4. Fodd bynnag, ac o gymryd safbwynt ceidwadol iawn ar adroddiad Doyle (a fyddai'n ddibynnol ar negodi rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol), gellid dadlau y byddai angen lleihau'r diffyg cyllidebol strwythurol o ryw 6-7% o GDP. Fe wynebai Cymru annibynnol nifer o ddewisiadau pe bai mewn sefyllfa felly, sef torri gwariant, cynyddu refeniw neu gyfuniad o'r ddau. Os oes diffyg o'r fath, cydnabyddir na fyddai angen o reidrwydd cau'r bwlch cyllidol hyn yn syth, ond dros gyfnod o amser a ystyrir yn rhesymol gan y rhai sy'n benthyg arian i'r wladwriaeth newydd.

6.5. Hyd yn oed o gymryd y safbwynt rhagofalus hwn, pwysig yw pwysleisio mai dim ond cyfnerthu cyllid Cymru o oddeutu 6-7% fyddai angen, gan fod hyder gennym bydd negodi gyda gweddill y Deyrnas Gyfunol yn ein gadael, ar y gwaethaf, gyda diffyg cyllidebol o oddeutu 9-10% o GDP y flwyddyn.

6.6. Mae'r canfyddiad hwn yn cynnig cyfle i Gymru ddechrau rhoi'r egwyddorion blaengar a adnabyddir yn adran 3 uchod ar waith, a gallai newidiadau mwy pellgyrhaeddol ddod wedi annibyniaeth. Awgrymwn felly y gallai'r meysydd a nodir isod fod yn sail i ymdrin ag unrhyw ddiffyg cyllidol sy'n wynebu Cymru annibynnol.

6.7. Mae adroddiad Poole yn dangos ei werth wrth gyfeirio at ddwy ffaith sy'n berthnasol i sefyllfa gyllidol Cymru, sef:

- lefel is refeniw-i-GDP Cymru o'i gymharu â chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd; a'r
- budd net a ddeuai o gynyddu canran y boblogaeth o oedran gweithio i gyfartaledd gwledydd Prydain.

TRETHI TEG

6.8. Gellid defnyddio cyfuniad o fesurau treth i gynyddu lefel refeniw-i-GDP i gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd (39.6% i 46.0%), gan godi tua £4 biliwn y flwyddyn a gwella'r sefyllfa gyllidol o tua 5% o GDP. Ar yr un pryd, gellid gwneud hyn mewn modd sy'n dosbarthu'n llawer iawn mwy cyfartal. Dylid nodi y byddai modd cyflwyno nifer o'r mesurau hyn cyn annibyniaeth er mwyn gosod seiliau ar gyfer adeiladu ein gweledigaeth ehangach i wireddu cymdeithas newydd wedi hynny.

6.9. Ymhlith y mesurau treth y dylid ystyried felly yw:

- treth ar gyfoeth, gan ddysgu gwersi o'r dreth a gynigir mewn rhai taleithiau yn yr Unol Daleithiau;
- cyfreithloni/dad-droseddoli cyffuriau, a fyddai'n arwain at refeniw ychwanegol ynghyd ag arbedion gwariant a allai arwain at incwm net o filiynau o bunnau y flwyddyn²³;
- treth ar incwm/elw landlordiaid a mathau eraill o rentwriaeth (rentierism), a fyddai'n codi o leiaf £375 miliwn y flwyddyn²⁴, fel cam tuag at symud at berchnogaeth gyffredin o dai;
- treth ar elw cwmnïau ar werthiant allforion ddŵr ac ynni;
- trethi cyfryngol newydd allai godi oddeutu £50 miliwn y flwyddyn;²⁵
- uwch-dreth ar eiddo mewn perchnogaeth dramor;
- alinio proffil treth incwm i sail treth Cymru;
- trethi etifeddiant uwch;

23 <https://www.theguardian.com/society/2009/apr/07/drugs-policy-legalisation-report>

<https://transformdrugs.org/publications>

<https://committees.parliament.uk/writtenevidence/107437/pdf/>

https://www.unodc.org/documents/ungass2016/Contributions/Civil/DrugPolicyAlliance/DPA_Fact_Sheet_Approaches_to_Decriminalization_Feb2015_1.pdf

https://iea.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/DP90_Legalising-cannabis_web-1.pdf

24 Amcangyfrif gan Gymdeithas yr Iaith drwy gyflwyno uwch dreth o 25% ar incwm landlordiaid gellid codi oddeutu £375 mil-iwn y flwyddyn. Ar lefel ymarferol, byddai rhaid cyfuno mesur felly â system o reoli prisiau rhent. https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Mwy%20na%20Miliwn%20Cymdeithas%20d2_o.pdf

25 tud. 16, Darlledu yng Nghymru II, Cymdeithas yr Iaith, 2019 <https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Datganoli%20Darlledu%20-%20Ymgynghoriad%20Pwyllgor%20DGCh.pdf>

- trethi difidend uwch; a
- treth incwm lleol i ddisodli'r dreth cyngor.

CENEDL IFANC

6.10. Cred Melin Drafod bod angen cyfres o fesurau i gynyddu canran y boblogaeth o oedran gweithio, sydd ar yr un pryd yn ail-ystyried ein perthynas â gwaith. Drwy'r mesurau hyn, credwn fod modd gwella sefyllfa gyllidol Cymru o oddeutu £1.5 biliwn²⁶ y flwyddyn neu 2.25% o GDP.

6.11. Wrth ystyried y cwestiynau hyn, cymerwn ysbrydoliaeth o erthygl a luniwyd ar gyfer ein llyfr *Dychmygu Cymru Annibynnol*²⁷ o'r enw *Y lle gorau i dyfu lan*, yn ogystal â syniadau blaengar am newidiadau yn y byd gwaith. Fel rhan o hyn, bydd angen polisiâu i wyrddroi yr allfudo, gan gadw, a denu yn ôl, ein pobl ifanc i Gymru.

6.12. Ymhellach, ac fel rhan o'r symud at yr ymagwedd newydd hwn, gallai Cymru annibynnol fod y wlad orau i bobl ifanc ac i fagu teulu. Awgrymir y gellid ystyried mesurau sy'n cynnwys y canlynol:

- Cynyddu nifer y gwyliau banc i'r lefelau gorau yn Ewrop²⁸, o 8 i 15 y flwyddyn;
- Wythnos o bedwar diwrnod gwaith fel uchafswm (gyda diwrnodau 8 awr a heb golled incwm);
- Gostyngiad neu ddileu ffioedd dysgu i fyfyrwyr addysg uwch sy'n aros yng Nghymru;
- Mesurau i reoli prisiau tai a rhent, gan gynnwys rhoi'r cyfle cyntaf i bobl a chymunedau lleol ar rheini sy'n gweithio'n lleol i brynu tai.

FFINIAU CROESAWGAR

6.13. Derbynir y byddai diddymu cyfyngiadau mewnfudo yn hwb economaidd anferthol yn fyd-eang²⁹. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, a hynny ar draws y cyfandir, mae dadl economaidd a chymdeithasol gref bod dirfawr angen gweithwyr arnom.

6.14. Fodd bynnag, ac fel y nodir yn adran 3 uchod, nid dadl economaidd, ond un foesol sy'n mynnu ein bod yn llacio ffiniau mewnfudo i'r graddau mwyaf posibl. Dylid felly ystyried sefydlu'r hawl i weithio yma yn ddi-amod, waeth o ble mae rhywun yn dod yn y byd ac yn annibynnol ar ddinasyddiaeth yr unigolyn.

ARBEDION Y GYMDEITHAS FLAENGAR NEWYDD

6.15. Gan adeiladu ar y rhan fwyaf o arbedion ariannol a adnabyddir gan Doyle, ac yn unol â'r egwyddorion a nodir yn adran 3 uchod, credwn fod mesurau polisi pellach y dylid eu mabwysiadu er mwyn creu cymdeithas tecach, gwyrddach a mwy cynhwysol:

- Un o'r tri gwasanaeth argyfyngau, gan sefydlu un 'Gwasanaeth Cymorth Brys' yn lle a fyddai'n dechrau â hybu lles unigolion a chymdeithas fel ei brif nod;
- Lleihau gwariant ar amddiffyn i'r un lefel ag Iwerddon, gan gynnal gwasanaeth amddiffyn sydd â chraidd proffesiynol bach ac yn anelu at hybu cyfranogiad holl ddinasyddion y wlad;
- Ymwrthod ag ynni ac arfau niwclear, gan arbed arian cymorthdal a dadgomisiynu;
- Lleihau cyfran y boblogaeth sy'n cael eu carchau i lefel y Ffindir³⁰ - o 154³¹ carcharor ymhob 100,000 o'r boblogaeth i 43.3 - gan arbed oddeutu £150 miliwn y flwyddyn³²

26 tud. 75, 'Government Expenditure and Revenue in Wales', Canolfan Llywodraeth Cymru

https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/1540498/Government-Expenditure-and-Revenue-Wales-2019.pdf

27 Dychmygu Cymru Annibynnol, Gorffennaf 2022, Melin Drafod

28 <https://www.tuc.org.uk/news/tuc-calls-creation-four-more-bank-holidays-improve-stingy-entitlement>

29 <https://www.aeaweb.org/articles?id=10.1257/jep.25.3.83>

30 <https://www.statista.com/statistics/957501/incarceration-rate-in-europe/>

31 <https://www.theguardian.com/uk-news/2019/jan/16/wales-has-highest-incarceration-rate-in-western-europe-prison-population-england>

32 Yn seiliedig ar fynd o 4,291 o garchorion (ffigur 2018) i 1,201 (28% o'r boblogaeth bresennol yn y carchar) gan arbed £48,409 y flwyddyn fesul carcharor

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1050046/costs-per-place-costs-per-prisoner-2020_-2021.pdf https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0008/1195577/Imprison-

- Sefydlu llai o awdurdodau lleol mwy grymus, gyda chyfrifoldebau iechyd yn ogystal, a allai arbed oddeutu £151 miliwn y flwyddyn³³; fel cam tuag at ail-strwythuro systemau ffurfiol democratiaeth er mwyn cryfhau ein cymunedau, cynnwys pobl, a dod â phŵer mor agos â phosibl i'r bobl.

6.16. Ac eithrio'r arbedion amddiffyn (a gyfrifir fel rhan o'r lleihad mewn costau yn ein dadansoddiad o adroddiad Doyle uchod), credwn fod lle i gredu y gellid gwneud arbedion o oddeutu £400 miliwn y flwyddyn, neu 0.5% o GDP, drwy'r newidiadau polisi a adnabyddir ym mhwynt 6.15 uchod.

7. CYTUNDEB CYMDEITHASOL NEWYDD — GWELEDIGAETH ÔL-ANNIBYNIAETH

7.1. Uchod rydyn ni wedi adnabod ffyrdd o gyfnerthu sefyllfa gyllidol Cymru o fwy na 7% o GDP, yn seiliedig ar ein rhagdybiaethau ceidwadol o gasgliadau Doyle.

7.2. Fodd bynnag, pe ystyrid yr adroddiad fel un cywir, byddai'r newidiadau a adnabyddir uchod yn troi diffyg rhagdybiedig o 3.1% o GDP i warged o oddeutu 4% o GDP, neu £3 biliwn y flwyddyn.

7.3. Pe bai'r mesurau uchod yn arwain at warged blynyddol, credwn y dylid ystyried gwneud rhai buddsoddiadau strategol. Adnabyddir rhai ohonynt uchod, ond gellid ystyried yn ogystal:

- Taliad cymorth plentyn sylweddol er mwyn dileu tlodi plant³⁴;
- Rhaglen dad-garboneiddio'r systemau trafnidiaeth, ynni a thai, gan gynnwys

buddsoddiadau sylweddol mewn ynni gwynt a thonnau³⁵;

- Rhaglen llythrennedd Saesneg a Chymraeg i oedolion i sicrhau bod pob unigolyn yn llythrennog yn y ddwy iaith;
- Rhaglen cymunedoli tai er mwyn gwneud tai cyhoeddus yn norm;
- Gofal plant i bawb yn rhad ac am ddim;
- Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bawb.

TRAWSNEWID Y SYSTEM GYFIAWNDER

7.4. Mae annibyniaeth yn cynnig cyfle i ail-ddychmygu llawer iawn o'n systemau presennol. Mae ein system gyfiawnder bresennol, a seilir ar amddiffyn elw ac eiddo'r cyfoethog, yn chwilio, arestio a charcharu cymaint o bobl yn gwbl ddiangen. Mewn llawer o achosion gwneir hyn ar sail rhagfarn: ar sail dosbarth, hil a nodweddion eraill, gyda llawer gormod yn dioddef aflonyddu a thrais gan yr awdurdodau. Yn wyneb yr anghyfiawnderau hyn, uchod cynigiwn greu un gwasanaeth argyfwng newydd, cyfreithloni cyffuriau a lleihau canran y boblogaeth sydd yn y carchar i'r lefelau isaf yn Ewrop. Mae gan y polisïau hyn y potensial i weddnewid bywydau pobl a chymunedau er gwell.

NEWID EIN PERTHYNAS Â GWAITH

7.5. Drwy annibyniaeth, mae gennym gyfle i ad-drefnu ein perthynas â gwaith er mwyn sicrhau bod holl fuddion gwaith yn dod i'r gweithwyr. Dylid gwneud hyn gan gofio'r canlynol:

- bod ein dibyniaeth ar 'ennill bywoliaeth' yn lle bywoliaeth briodol fel hawl sylfaenol dinesydd;
- yn rhy aml mae gwaith yn arwain at fywyd sy'n dieithrio neu allgau pobl, o hunanwerth isel, ychydig o bwrpas a chyda goblygiadau iechyd meddwl ac eraill;
- yr angen brys a dybryd i wneud llai er mwyn lleihau ein heffaith ar drychinebau hinsawdd a natur;

ment-in-Wales-A-Factfile.pdf

<https://www.llywycymru/byddai-system-gyfiawnder-ddatganoledig-yn-gyfle-i-leihau-poblogaeth-carchardai>

33 <https://www.llywycymru/costau-gweinyddol-mewn-awdurdodau-lleol-adolygiad>

<https://www.llywycymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-costau-gweinyddol-awdurdodau-lleol>

34 <https://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-63635698>

35 <https://foe.cymru/cy/cartrefi-cynnes-beth-ydyn-nin-galw-amdano>

<https://www.theenergymix.com/2022/03/20/not-that-hard-to-grasp-uk-could-eliminate-need-for-russian-gas-with-insulation-heat-pumps-renewables/>

- pwysigrwydd sicrhau rheolaeth gan weithwyr a hawliau gweithwyr cryfion fel bod cyflogaeth yn fuddiol i unigolion ac i gymdeithas yn gyffredinol;
- tanbrizio rolau penodol yn y gymdeithas mewn perthynas â gwaith cyflogedig, yn enwedig rolau sy'n debygol o fod yn anogol, gofalu ac ati.

7.6. Gallai Cymru annibynnol drawsnewid ein perthynas â gwaith drwy:

- darparu Gwasanaethau Sylfaenol Cyffredin a chyflogau am waith domestig a gofal, gan ryddhau dinasyddion o'r angen iddynt weithio i fyw;
- mabwysiadu (a chefnogi gyda chymhellion) technolegau arbed llafur - megis deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio - i'r eithaf, a rheini mewn perchnogaeth gyffredin;
- gwrthdroi'r naratif bod angen swyddi cyflogedig arnom i oroesi a thyfu; yn hytrach dylem wneud y mwyaf o'n hamser, gan ddewis sut i'w dreulio;
- bod yn wlad sy'n ceisio cefnogi dinasyddion i ffynnu mewn ystod eang o ffyrdd;
- sefydlu democratiaeth y gweithwyr: gan adfer hawliau streicio, cydnabyddiaeth orfodol o undebau llafur a hawliau i gynnal streiciau cyffredinol.

RHAGLEN PERCHNOGAETH GYFFREDIN

7.7. Dadleuodd Marx dros berchnogaeth gyffredin o ddiwydiannau er mwyn i weithwyr ennill yr holl fuddion o'u gwaith. Yn unol â'r egwyddor sylfaenol hon, deuai buddion amlwg o wladoli asedau allweddol y wladwriaeth newydd, megis ynni, banciau, dŵr, trafndiaeth, post a thai, gan ddod â grym yn ôl i'r bobl. Ymhellach, gallai Cymru annibynnol ystyried yr opsiwn o ail-wladoli rhai o'r gwasanaethau angenrheidiol heb dalu iawndal, o ystyried yr elw a wnaed, a safon y gwasanaethau, yn hanesyddol.

7.8. Wrth i ni drafod gwladoli neu gymunedoli asedau a diwydiannau, mae llawer o ffocws ar 'gost gwladoli'. Mae Melin Drafod eisiau newid y drafodaeth i ffocysu ar y gost o'u cadw'n preifat. Mae'r costau hyn, yn y bôn, yn llawer uwch nag y mae sawl yn eu tybio - enghraifft amlwg o hyn yw'r

costau anferthol o achub y system fancio mewn nifer o wledydd y Gorllewin yn ystod argyfwng ariannol 2008-9.

7.9. Mae pob ceiniog o elw sydd yn mynd i bocedi'r perchnogion preifat yn geiniog yn llai i'r genedl ei gwario. Mae gwasanaethau preifat (yn naturiol) yn ffocysu ar echdynnu elw, yn lle sicrhau gwasanaeth. Mae elw a darpariaeth yn gysyniadau sy'n gwrthdaro. Wrth flaenoriaethu elw, mae cwmnïau preifat yn tansilio darpariaeth. Nid oes angen i wasanaethau sy'n cael eu cynnal ar ran y gymuned, er lles y gymuned, wneud elw: yr unig beth mae angen iddynt ei wneud yw darparu gwasanaeth da.

7.10. Mae'r gost o gadw asedau a diwydiannau'n breifat yn gost i'n cymdeithas yn gyffredinol. Gadewch i ni edrych ar ynni a thrafnidiaeth fel enghreifftiau. Mae EDF (cyflenwr ynni), er enghraifft, o dan berchnogaeth Llywodraeth Ffrainc - a hwythau wedi gallu gosod cap ar gynnydd prisiau ynni i 4%, diolch i'w rheolaeth wladwriaethol. Ym mis Awst 2022, roedd teuluoedd ym Mhrydain, ar gyfartaledd, yn talu 64.21 ceiniog/kWh, tra bod teuluoedd yn Ffrainc yn talu 25.01 ceiniog/kWh yn unig.

7.11. Mae'n fyth bod ein systemau trafndiaeth mewn dwylo preifat; mewn gwirionedd maent yn aml o dan berchnogaeth llywodraethau tramor. Yn 2019, bu 80% o'r cwmnïau trên ym Mhrydain o dan berchnogaeth llywodraeth dramor naill ai'n llawn neu'n rhannol, gyda'r 20% arall o dan berchogaeth breifat neu Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Yn Ffrainc, £0.29 yw pris tocyn tren fesul milltir, £0.14 yn yr Eidal, ac ym Mhortiwgal £0.13. Fodd bynnag, ym Mhrydain, £0.55 yw'r ffigur cyfatebol³⁶. Mae costau cynnal systemau preifat o'r fath yn glir: gwasanaethau drutach heb wasanaeth gwell³⁷.

7.12. Credwn felly bod angen ymchwil bellach ar y dull gorau o weithredu rhaglen gwladoli a chymunedoli fel rhan o annibyniaeth, yn unol â'n hamcanion i ddsbarthu cyfoeth yn llawer mwy cyfartal a manteisio ar fuddion amlwg perchnogaeth gyffredin o ddiwydiannau ac asedau allweddol.

36 <https://www.vouchercloud.com/resources/train-prices-across-europe>

37 <https://www.consultancy.uk/news/13535/europes-best-train-systems-uk-railway-poor-in-service-quality>

8. CASGLIADAU

8.1. Heb os, mae'r ddadl ynghylch annibyniaeth a'r goblygiadau ariannol wedi symud ymlaen yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf.

8.2. Mae safon adroddiad yr Athro Doyle yn rhoi cryn hyder i ni fod tystiolaeth dda i gredu bod Cymru yn wlad sy'n gynaliadwy yn ariannol.

8.3. Hyd yn oed o ddadansoddi adroddiad Doyle yn ofalus, yn yr adroddiad hwn rydyn ni wedi adnabod newidiadau polisi a fyddai'n gwella sefyllfa gyllidol Cymru o fwy na 7% o GDP.

8.4. Felly rydym wedi dod i'r casgliad bod y newidiadau hyn yn caniatáu i Gymru wynebu senario ffafriol ar ei diwrnod cyntaf fel gwlad annibynnol. Ar y gwaethaf, byddai diffyg y wlad ar lefel debyg i gyfartaledd gwledydd Ewropeaidd ac o fewn rheolau Cytundeb Twf a Sefydlogrwydd yr Undeb Ewropeaidd, sef oddeutu 3% o GDP. Ar y gorau, byddai Cymru, mewn byr o dro, â gwarged o hyd at 4% o GDP neu £3 biliwn y flwyddyn, ac felly mewn sefyllfa i fuddsoddi'n strategol er mwyn cwrdd ag anghenion pobl, cymunedau a'r blaned er lles cenedlaethau'r dyfodol.

*PWYLLGOR CENEDLAETHOL MELIN DRAFOD,
IONAWR 2023*



CYNNIG ADBORTH AR Y PAPUR HWN

Papur trafod yw hwn ac rydym yn awyddus i wella'r cynigion.
Croesewir sylwadau, beirniadaeth ac adborth adeiladol ar y cynnwys felly.
Os hoffech ysgrifennu atom gyda'ch sylwadau, gallwch chi wneud hynny drwy e-bostio:
post@melindrafod.cymru